Y drefn baratoi arferol

Trosolwg

Mae paratoi plant ifanc i fynd allan i'r awyr agored i chwarae'n gallu bod yn rhwystr i deuluoedd yn aml, oherwydd bod yr amser a'r ymdrech yn gallu gwneud i rywun deimlo'n flinedig iawn. Modelwch strategaethau i helpu gyda chyfnodau pontio.



Gweithgareddau

Mae llawer o ddysgu'n rhan o'r broses o baratoi i fynd allan. Pan fydd y plant yn gallu, mae'n bosibl y byddant yn dechrau eu gwisgo eu hunain. Efallai na fydd gan blant iau y gallu eto i'w gwisgo eu hunain – ac mae canu cân i'w paratoi ar gyfer yr hyn fydd yn digwydd nesaf, wrth i oedolyn eu gwisgo, yn gallu helpu gyda'r cyfnod o bontio i weithgaredd newydd. Defnyddiwch ganeuon cyfarwydd, a newidiwch y geiriau i rai mwy addas. Does dim rhaid i chi fod yn dda am ganu – mae trefn arferol ac ailadrodd yn allweddol.

Offer

Eich lleisiau chi'n unig! Mae siarad â babanod a phlant ifanc neu ganu iddynt, hyd yn oed os na allant ddilyn cyfarwyddiadau eto, yn dal yn fuddiol wrth iddynt ddechrau ymateb i'r hyn y gallant ei glywed a'i weld.

Awgrymu cân

(Ar dôn 'Dyma ni'n mynd i Fethlehem')

Dyma ni'n mynd am dro i'r coed (i'r parc/i'r cae/i'r pwll/i ben y bryn
Am dro i'r coed, am dro i'r coed,
Dyma ni'n mynd am dro i'r coed
Ie, ti yng nghwmni mami (dadi/anti/y babi).

Cysylltu â phrofiadau o fywyd go iawn

Deilliannau dysgu

- Iechyd a lles – gwisgo'n annibynnol, rhoi camau gweithredu yn y drefn gywir a deall cyfarwyddiadau.
- Llythrennedd – siarad, gwrando, iaith gyfarwyddol.

Symud y dysgu yn ei flaen

- At hynny, mae mynd o'r pen i'r ysgwyddau ac i'r coesau a'r traed i wneud yn siŵr ein bod yn gwisgo'r peth cywir am bob rhan o'r corff yn gallu troi paratoi yn hwyl, ac yn rhoi cyfle i'r plant asesu beth sydd ei angen.